# BETH AM GYSYLLTU

GWEITHGAREDDAU AR GYFER PLANT 11-14 OED

Place2Be's WYTHNOS IECHYD MEDDWL PLANT

CHWEFROR 6-12 2023

GWEITHGAREDD 3

## Cysylltu'n ddiogel ar-lein

**Rydym yn gwybod bod disgyblion yn aml yn gwneud cysylltiadau ag eraill ar-lein; ar y cyfryngau cymdeithasol, neu wrth chwarae gemau fideo. Mae'r gweithgaredd hwn yn annog disgyblion i ystyried sut allan nhw aros yn ddiogel ar-lein, a hefyd yn archwilio'r gwahaniaethau rhwng cysylltiadau ar-lein a chysylltiadau wyneb yn wyneb.**

- Gallai hyn ddechrau gyda chwis gyda'r disgyblion yn symud o amgylch y dosbarth yn ôl atebion ie/na i rai o'r cwestiynau, ac yna symud i drafod mewn grwpiau bach/parau ar gyfer y cwestiynau agored.
- Meddyliwch am gysylltiadau mewn bywyd go iawn a chysylltiadau ar-lein.
    - Ydy'ch hunan ar-lein yn wahanol i'ch hunan mewn bywyd go iawn?
    - Sut maen nhw'n wahanol neu'n debyg?
    - A yw'n haws neu'n anoddach i gysylltu ag eraill ar-lein neu mewn bywyd go iawn? Pam?
    - A yw eich hunan ar-lein yn allanoliad o bwy yr hoffech chi fod?
    - A yw'r ffordd rydym yn defnyddio ein dyfeisiau electronig yn gwella neu'n llesteirio ein cysylltiad â chyfathrebu gydag eraill?
    - Anogwch y disgyblion i drafod y cwestiynau hyn.
- Mae'n ddiwrnod Defnyddio'r Rhyngrwyd yn Fwy Diogel ar ddydd Mawrth 7 Chwefror. Ewch i'r wefan Defnyddio'r Rhyngrwyd yn Fwy Diogel i ddefnyddio adnoddau am ddim Childnet i archwilio sut all disgyblion gadw'n ddiogel ar-lein.

**Mae'r gweithgaredd hwn wedi'i gynllunio ar gyfer plant 11-14 oed, ond fe allech ei ddefnyddio ar gyfer grwpiau oed eraill hefyd. I ymestyn y cynnwys, cyfeiriwch at syniadau eraill am weithgareddau.**

